Bute Energy
Parc Aberedw

# Parc Ynni Aberedw



## Llyfryn Ymgynghori Statudol

Gorffennaf 2025

# Cynnwys


Amdanom ni Bute Energy 3

Ein hymrwymiad i Gymru 3

Gwybodaeth am y prosiect 4

Map o'r safle 4

Cynllun seilwaith y safle 5

Diweddariad ar ein cynnigion 6

Newidiadau I leoliad arfaethedig y tyrbynau 7

Asesiadau amgylcheddol 8

Trafnidiaeth a mynediad 12

Trosglwyddo pŵer 13

Is-orsaf 13

Cysylltiad grid 13

Adeiladu a datgomisiynu 14

Buddsoddiad cymunedol 15




# Amdanom ni Bute Energy

**Yn Bute Energy, ein cenhadaeth yw creu prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n gwneud Cymru yn wlad gyfoethocach ac iachach – rydym am wneud i dywydd Cymru weithio dros Gymru drwy'r buddsoddiad busnes mwyaf yn yr economi wledig mewn cenhedlaeth.**

Rydym yn mabwysiadu dull arloesol o ddarparu, cyn gynted â phosibl, yr ynni adnewyddadwy y mae ei angen arnom, gyda'n holl barciau ynni yn gallu cynhyrchu ynni gwyrdd cyn 2030.

Gyda thargedau Llywodraeth Cymru wedi'u hymrwymo i ddiwallu 100% o anghenion trydan Cymru erbyn 2035, rydym yn chwarae ein rhan i wireddu hynny.

**Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith gadarnhaol ein prosiectau i gyflawni:**

- 2 gigawat o drydan glân ar draws ein parciau ynni
- Gwerth £3 biliwn o fuddsoddiad yn economi Cymru
- Hyd at 2,000 o swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy ein prosiectau

## Ein hymrwymiad i Gymru

- Gwneud y mwyaf o bob datblygiad ynni adnewyddadwy tra'n diogelu'r amgylchedd a chefnogi cymunedau lleol.
- Darparu buddion cymunedol hirdymor i gefnogi trigolion, sefydliadau elusennol a busnesau o amgylch pob prosiect adnewyddadwy.
- Caffael cymaint o'n cynnyrch â phosibl drwy'r gadwyn gyflenwi leol a datblygu sgiliau newydd a rhaglenni prentisiaeth.
- Datblygu mentrau cynaliadwy, amgylcheddol a hamdden o amgylch ein safleoedd datblygu a fydd yn gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt ar gyfer cymunedau lleol a rhanbarthol.

# Gwybodaeth am y prosiect

Rydym nawr yn ymgynghori ar ein cynnig terfynol cyn gwneud cais i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt. Mae gwybodaeth am sut i roi eich adborth ar y dudalen gefn.

- Cynigir lleoli Parc Ynni Aberedw tua 3km i'r dwyrain o Lanfair-ym-Muallt, Powys.
- Bydd gan Barc Ynni Aberedw 18 tyrbin, gyda blaen llafn uchaf o 200m
- Ad-dalu cost carbon adeiladu a gweithredu'r parc ynni o fewn 10 mis
- Cynhyrchu hyd at 120 megawat (capasiti wedi'i osod) o ynni glân, adnewyddadwy
- Digon i bweru rhwng 86,000* a 113,000 o gartrefi
- Cronfa Budd Cymunedol gwerth hyd at £900,000 yn flynyddol

*Dull a argymhellir gan RenewableUK


## Map o'r safle

Bydd Parc Ynni Aberedw yn cynnwys seilwaith cysylltiedig, megis trawsnewidyddion wedi'u lleoli mewn tyrbinau a seilwaith ar y safle sy'n cynnwys is-orsaf, llwybrau mynediad, padiau craen a cheblau. Bydd caeadle adeiladu dros dro gyda swyddfeydd ar y safle.

Bydd y Parc Ynni wedi'i gynllunio gydag oes weithredol o hyd at 40 mlynedd, gan allforio ynni adnewyddadwy yn uniongyrchol i'r grid cenedlaethol.

Dewiswyd y lleoliad oherwydd ei addasrwydd technegol ac amgylcheddol a'i gyflymder gwynt gorau posibl.

# Cynllun seilwaith y safle



# Diweddariad ar ein cynnigion

Mae'r cynnig wedi cael eu diweddaru yn dilyn canlyniadau arolygon ac adborth a dderbyniwyd gan y gymuned a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'n hymgynghoriad blaenorol.

## Rydym wedi newid dyluniad ein safle i:

- Leihau cysgodion symudol a sŵn posibl mewn eiddo cyfagos;
- Lleihau datblygiad ar dir comin;
- Lleihau'r effeithiau ar y dirwedd, amwynder gweledol a nodweddion hanesyddol; a
- Lleihau'r effeithiau ar y cyrsiau dŵr ar draws y safle.


Rydym yn cynnig uwchraddio cyffordd ffordd a phriffordd bresennol i'r safle i leihau faint o ddatblygiad newydd fydd ar Fryn Aberedw.

Rydym wedi dewis lleoliad is-orsaf ger yr A481 a fydd wedi'i ddylunio i edrych fel sied fferm a bydd yn creu cysylltiad haws â'r grid. Bydd gan hwn ei fynediad ei hun, a fydd wedi'i uwchraddio, o'r A481.

Rydym wedi cytuno ar ein cynllun goleuadau awyrennau gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau'r Weinyddiaeth Amddiffyn.



# Newidiadau I leoliad arfaethedig y tyrbynau



# Asesiadau amgylcheddol

Er mwyn sicrhau bod Parc Ynni Aberedw wedi'i gynllunio â gofal a sensitifrwydd, rydym wedi cynnal arolygon helaeth ar ecoleg, adareg, yr amgylchedd hanesyddol, hydroleg, daeareg a phriddoedd, sŵn, tirwedd, ac effaith weledol.

Mae'r asesiadau hyn wedi ein helpu i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer y tyrbinau a seilwaith arall a sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl yn cael eu datrys gyda mesurau lliniaru cadarn.

**Mae ein Datganiad Amgylcheddol yn amlinellu'r holl arolygon rydyn ni wedi'u gwneud a'r camau rydym yn eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd:**



## Ecoleg

Bydd y prosiect yn sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn ystod ei oes, gan gynnwys creu ac adfer cynefinoedd.

Bydd y gwelliannau hyn, a wneir o dan reolaeth gynefinoedd briodol am gyfnod 40 mlynedd y prosiect, o fudd i fywyd gwyllt ar draws y safle drwy gynyddu ansawdd, amrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd.

## Adareg

Rydym wedi cynnal arolygon manwl o adar ar draws y safle, gan gynnwys arolygon o bwyntiau gwylio, tymor bridio, adar ysglyfaethus ac arolygon cerdded yn y gaeaf.

Rhoddwyd sylw arbennig i rywogaethau fel yr Hebog Marthin, y Barcud Coch a'r Cwtiad Aur a allai gael eu heffeithio yn ystod y gwaith adeiladu a / neu a allai fod mewn perygl o wrthdrawiad.

Er mwyn lleihau'r risg, rydym wedi defnyddio modelu risg gwrthdrawiadau i helpu llunio dyluniad y safle a lleihau effeithiau posibl. Rydym wedi ychwanegu parthau byffer o amgylch safleoedd nythu adar gwarchodedig a bydd Cynllun Diogelu Adar yn tywys y gwaith adeiladu i osgoi aflonyddwch.







## Hydroleg, hydroddaeareg a daeareg

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o arolygon i ddeall amgylchedd dŵr a chyflwr daear presennol y safle, gan gynnwys astudiaethau desg a gwaith maes.

Profwyd pridd mewn amrywiol leoliadau, a mapiwyd yr holl nodweddion dŵr yn ofalus. Mae ardaloedd bach o briddoedd mawnaidd wedi'u nodi a'u hosgoi yn y dyluniad.

Mae nifer o gyflenwadau dŵr preifat ar y safle. Er mwyn eu diogelu, byddwn yn cynnal asesiadau pellach ac yn monitro ansawdd dŵr yn rheolaidd yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd y canfyddiadau hyn yn llywio Cynlluniau manwl ar gyfer Rheoli Pridd, Dŵr Wyneb ac Amgylchedd Adeiladu, a ddatblygir gydag arbenigwyr ac a gedwir yn gyfredol drwy gydol y gwaith adeiladu a'r gweithrediad.

## Hedfanaeth a goleuo

Rydym wedi gweithio'n agos â'r Awdurdod Hedfan Sifil, y Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod ein cynlluniau'n cydymffurfio'n llawn â rheoliadau diogelwch hedfanaeth.

O ystyried uchder y tyrbinau, bydd angen goleuadau diogelwch hedfanaeth a lle bynnag y bo modd, bydd y cyfluniad goleuadau terfynol yn cael ei optimeiddio i leihau'r effaith weledol ar yr ardal leol a'r effaith ar awyrennau.

Byddai goleuadau arbennig yn cael eu defnyddio i leihau disgleirdeb tuag i lawr, gan ei wneud yn llai gweladwy oddi isod.





## Effaith ar y tirwedd ac effaith weledol

Rydym wedi cwblhau Asesiad Effaith Gweledol a Thirwedd cynhwysfawr, gan adolygu golygfannau allweddol hyd at 28km o dyrbinau mwyaf allanol y safle a 33km o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr tirwedd Cyngor Sir Powys.

Rydym hefyd wedi cynnal Asesiad Amwynder Gweledol Preswyl manwl o bob eiddo preswyl o fewn 2km o'r safle.

## Yr amgylchedd hanesyddol

Rydym wedi cynnal asesiadau cefndir archeolegol a hanesyddol helaeth o'r safle a'r ardal gyfagos. Canfu'r asesiadau hyn bedwar ased hanesyddol dynodedig o fewn y safle, ac mae dyluniad y datblygiad arfaethedig wedi ystyried yn ofalus ac wedi osgoi effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Bydd ein Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu yn nodi mesurau arfer gorau i leihau niwed i asedau hanesyddol heb eu dynodi ac anhysbys yn ystod y gwaith adeiladu.

Bydd effaith sylweddol ar leoliad dau ased hanesyddol dynodedig, sef Crugiau Crwn Bryn Aberedw (Cyf. Cadw. RD074) a Chwt Hir Amgaeëdig Cwmblaenerw (Cyf. Cadw RD169), tra bod y Parc Ynni ar waith. Bydd yr effaith hon yn dod i ben unwaith y bydd y parc wedi'i ddatgomisiynu.

Yn ystod y gwaith adeiladu, byddwn yn cyflogi archaeolegwyr i gadw a chofnodi gweddillion unrhyw asedau heb eu dynodi a allai gael eu heffeithio'n ffisegol, gyda gwaith wedi'i gytuno â Heneb (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys gynt).







## Cysgodion symudol


Rydym wedi asesu'r potensial ar gyfer cysgodion symudol mewn eiddo preswyl cyfagos, ffenomen a achosir gan gylchdroi llafnau tyrbinau yn taflu cysgodion ysbeidiol o dan amodau tywydd penodol. Gellir rhagfynegi'r effaith hon yn gywir, a byddwn yn gweithredu mesurau lliniaru megis atal tyrbinau dros dro yn ystod cyfnodau brig cysgodion symudol.

## Sŵn

Rydym wedi cynnal gwaith monitro sŵn ac asesiadau effaith trylwyr yn unol ag arfer gorau, deddfwriaeth berthnasol ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Powys. Mae hyn yn sicrhau bod terfynau sŵn yn cael eu gosod i amddiffyn trigolion lleol a diogelu amwynder preswyl.

Bydd unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir yn cynnwys terfynau sŵn llym, ac rydym wedi cymryd camau drwy ddyluniad y prosiect i sicrhau nad eir heibio i'r terfynau hyn. Bydd sŵn dros dro yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei reoli drwy Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, sy'n cynnwys oriau gwaith cyfyngedig i leihau aflonyddwch.





## Newid yn yr hinsawdd

Rydym wedi cyfrifo y bydd Parc Ynni Aberedw wedi cynhyrchu digon o ynni gwyrdd o fewn y flwyddyn gyntaf o weithredu i ad-dalu cost carbon ei adeiladu a'i weithredu yn erbyn cymysgedd tanwydd ffosil o gynhyrchu trydan.

Mae'r gost carbon i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Parc Ynni wedi'i chyfrifo yn rhan o'r cais cynllunio. Mae hyn yn cynnwys y carbon a grëir wrth adeiladu'r tyrbinau, y concrit a ddefnyddir yn y sylfeini a'r carbon a ryddheir wrth gloddio sylfeini, a'r oes weithredol ragweladwy o 40 mlynedd.

# Trafnidiaeth a mynediad

Mae'r Parc Ynni wedi'i leoli yng nghanol Cymru, felly rydym yn ystyried dau opsiwn llwybr ar gyfer danfon cydrannau tyrbinau i borthladdoedd sydd wedi'u lleoli naill ai ym Mhenbedw yn y gogledd neu Abertawe yn y de.


Y prif fynediad ar gyfer Parc Ynni Aberedw fydd trwy gyffordd mynediad wedi'i huwchraddio oddi ar y ffordd C1336.

Bydd y cyffordd mynediad hon yn darparu'r unig fynediad ar gyfer yr holl lwythi annormal sy'n gysylltiedig â danfoniadau'r tyrbinau yn ogystal â mynediad i gerbydau nwyddau trwm sy'n danfon deunydd adeiladu a mynediad i'r gweithwyr adeiladu.

Mae ail bwynt mynediad wedi'i leoli'n uniongyrchol oddi ar yr A481, i'r gogledd o'r Safle, i hwyluso mynediad i'r is-orsaf yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu yn unig. Ni fydd mynediad o'r is-orsaf i brif ardal tyrbin gwynt y safle.

Bydd unrhyw waith ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cludo llwythi annormal sydd angen caniatâd ar wahân yn cael ei gyflwyno ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau cynllunio a phriffyrdd lleol perthnasol.

Bydd Cynllun Rheoli Trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r heddlu, awdurdodau priffyrdd a chludwyr i sicrhau bod cydrannau'n cael eu cludo'n ddiogel ac yn effeithlon ac i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl; er enghraifft mae'n ystyried amseroedd teithio i'r ysgol a digwyddiadau allweddol.








# Trosglwyddo pŵer

## Is-orsaf

Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys newid sylweddol o ran yr is-orsaf arfaethedig.

Yn ystod yr ymgynghoriad Cysylltiad Grid Aberedw a gynhaliwyd gan Green GEN Cymru yn 2024, cynghorwyd y byddai is-orsaf Parc Ynni Aberedw wedi'i lleoli ar ben Bryn Aberedw, gyda llinell uwchben polyn pren i'w chysylltu â gorsaf switsio drydanol a gynigiwyd fel rhan o brosiect Tywi Wysg a'r grid ehangach.

Rydym bellach wedi nodi lleoliad newydd ar gyfer yr is-orsaf wrth droed Bryn Aberedw, gan ddefnyddio ceblau tanddaearol i drosglwyddo pŵer o'r tyrbinau i'r is-orsaf.

Bydd y trawsnewidydd grid a'r offer switsio o fewn adeilad, wedi'i gynllunio i edrych fel adeilad amaethyddol i gyd-fynd â'r amgylchedd lleol. Bydd hyn yn agos at yr orsaf switsio trydanol a gynigiwyd fel rhan o brosiect Green Gen Towy Usk.

## Mae hyn nawr yn golygu:

- Mae ceblau tanddaearol i'r is-orsaf yn debygol o ddileu'r angen am gysylltiad polyn pren i lawr ochr Bryn Aberedw.
- Llai o effaith weledol o'r is-orsaf a'r cysylltiad grid.
- Tynnu seilwaith o dir comin.
- Mynediad haws i'r is-orsaf oherwydd ei bod wedi'i lleoli wrth ymyl priffordd.
- Mynediad haws i'r rhwydwaith grid.



## Cysylltiad grid

Bydd y parc wedi'i gysylltu â'r system grid genedlaethol ehangach drwy brosiectau Cysylltiad Grid Aberedw a Thywi-Wysg Green GEN Cymru.

Bydd Green GEN Cymru yn dylunio, yn cydsynio ac yn adeiladu'r cysylltiad grid ar gyfer Parc Ynni Aberedw. Dysgwch ragor am eu cynlluniau drwy ymweld â'u gwefannau:

**www.greengenaberedw.com | www.greengentowyusk.com**

# Adeiladu a datgomisiynu

Mae'n debygol y bydd adeiladu'r parc ynni yn cymryd llai na dwy flynedd i'w gwblhau.

Er mwyn sicrhau bod y broses adeiladu yn achosi cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r gymuned leol, byddwn yn cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol gyda'n cais.

## Nodweddion allweddol y gwaith adeiladu yw:

- Ni osodir unrhyw dyrbinau na lleiniau caled ar fawn (dim mawn ar y safle).
- Sylfeini tyrbinau cyfartalog 25m ar draws.
- Cyfanswm bras y concrit a ddefnyddiwyd ar seiliau'r tyrbinau: 26,000m$^3$
- Gwneir pob ymdrech i storio pridd a dynnir yn ystod y gwaith adeiladu ar y safle a'i ddefnyddio wrth adfer.
- Mae asesiad dŵr wyneb wedi cael ei gynnal a chytunir ar gynllun rheoli â rhanddeiliaid arbenigol cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Bydd y cynllun yn ymdrin ag adeiladu a gweithredu.

## Gweithredu a datgomisiynu

Hyd oes ddisgwyliedig y prosiect yw 40 mlynedd. Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, a phan fydd Parc Ynni Aberedw yn weithredol, bydd peirianwyr yn asesu ac yn cynnal a chadw'r tyrbinau a'r seilwaith arall ar y safle yn rheolaidd. Ymchwilir i unrhyw broblemau ar y safle yn unol â hynny.

Fel rhan o'r caniatâd cynllunio, bydd amod cynllunio yn cael ei gynnwys i'w gwneud yn ofynnol bod cytundeb ar Gynllun Datgomisiynu cyn datgomisiynu'r safle. Bydd rhwymedigaeth gyfreithiol hefyd i sefydlu cronfa ddatgomisiynu gyda'r awdurdod lleol.

Perchennog y Parc Ynni sydd â'r cyfrifoldeb ariannol am ddatgomisiynu'r safle a chael gwared ar yr holl seilwaith. Er mwyn sicrhau hyn, sicrheir bond a brisir yn annibynnol ar ddechrau'r prosiect i dalu costau datgomisiynu—gan amddiffyn tirfeddianwyr a threthdalwyr. Os bydd y perchennog yn methu â thalu, mae'r bond yn caniatáu i'r awdurdodau ymyrryd a gwneud y gwaith.

I grynhoi, mae datgomisiynu wedi'i gynllunio o'r cychwyn cyntaf, gyda mesurau diogelwch cyfreithiol ac ariannol cryf. Cytunir hefyd ar gynllun datgomisiynu amlinellol cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.







# Buddsoddiad cymunedol

Bute Energy Cymuned

## Bydd Parc Ynni Aberedw yn darparu manteision sylweddol i'r gymuned leol, gan gynnwys Cronfa Budd Cymunedol o hyd at £900,000 bob blwyddyn dros oes y prosiect.

Bydd y Gronfa Budd Cymunedol yn darparu cyllid i grwpiau lleol, elusennau a gwasanaethau i gynnal eu gwaith, a chreu prosiectau arloesol newydd a fydd o fudd i bobl leol.

## Sut bydd y cyllid yn cael ei strwythuro?

- Am bob megawat y mae Parc Ynni Aberedw yn gallu ei gynhyrchu, bydd £7,500 yn cael ei fuddsoddi yn y gymuned leol a bydd hyn yn cysylltu â Mynegai Prisiau Defnyddwyr i ganiatáu ar gyfer chwyddiant economaidd ac i ddiogelu'r cyllid ar gyfer y dyfodol.
- Bydd Cronfa Budd Cymunedol yn cael ei gweinyddu drwy endid elusennol annibynnol a'i llywio gan banel lleol.
- Byddai telerau cytundebol mewn unrhyw newid posibl mewn perchnogaeth a fyddai'n sicrhau bod y prynwr wedi'i rwymo'n gyfreithiol i anrhydeddu telerau contract y Gronfa Budd Cymunedol am oes y Parc Ynni.

## Ein pum maes ffocws allweddol:

**Cymorth cost byw**

Nodi sut y gallwn gefnogi trigolion lleol sy'n cael trafferth gyda chostau byw, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

**Addysg**

Dylunio a chyflwyno sesiynau addysgol rhyngweithiol i bobl o bob oed, gan godi ymwybyddiaeth am faterion fel newid hinsawdd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

**Amgylchedd a diwylliant**

Ymgysylltu â chymunedau i ddathlu a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol, diwylliant lleol a safleoedd treftadaeth.

**Cyflogaeth**

Gweithio gyda darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i greu llwybrau a chyfleoedd i ymuno â'r diwydiant ynni adnewyddadwy.

**Hamdden ac iechyd**

Helpu i wella mynediad at weithgareddau hamdden, iechyd a lles lleol, er mwyn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol cymunedau lleol.

# Amserlen y prosiect

**Gaeaf 2023**
Ymgynghoriad cychwynnol â'r gymuned a rhanddeiliaid

**Gaeaf 2023 i Hydref 2024**
Esblygu ein cynigion – wedi'u llywio gan adborth ac arolygon safle

**2025**
Mast Meteorolegol - caniatâd cynllunio a gosod

**Dechrau 2025**
Drafftio cais gyda chynlluniau manwl a datganiad amgylcheddol

**Haf 2025**
Ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol

**Gaeaf 2025**
Cyflwyno cais cynllunio Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

**Hydref 2026**
Disgwylir i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais

**2027/8**
Caffael tyrbinau, contractau adeiladu, a gwaith trydanol a pheirianneg sifil cysylltiedig

**2029**
Cwblhau'r gwaith adeiladu, ac allforio ynni glân, gwyrdd am y tro cyntaf i'r Grid Cenedlaethol.

# Dweud eich dweud

Rydym yn eich gwahodd i roi adborth ar ein cais cynllunio drafft ar gyfer Parc Ynni Aberedw.

Bydd eich adborth yn cael ei adolygu ac ymatebir iddo yn yr Adroddiad Ymgynghori a'i gyflwyno i PEDW yn rhan o'r cais cynllunio.

## Cysylltwch â ni ac anfonwch eich adborth atom erbyn 5pm ddydd Llun 18 Awst 2025.

aberedwenergypark.wales

Mae ffurflenni adborth ar gael ar ein gwefan, neu yn ein sesiynau galw heibio cyhoeddus. Neu cysylltwch â ni a gallwn ni anfon copi caled atoch trwy'r post.

aberedw@bute.energy

01597 730 133

Freepost GRASSHOPPER CONSULT

Sganiwch y cod QR isod i gymryd rhan yn ein harolwg byr, a fydd yn ein helpu i ddeall eich barn ar y parc ynni yn well, a'r hyn sy'n bwysig i'ch cymuned.